# Staff Comisiwn y Cynulliad a Etholwyd i Gyngor Sir

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

11 Tachwedd 2016

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 3 Tachwedd, pan wnaethoch ofyn:

1. *Sawl un o staff Comisiwn y Cynulliad sydd ar hyn o bryd wedi'u hethol i awdurdod /Cyngor lleol neu Gyngor Sir. Os felly, a yw'r staff hyn wedi'u hethol fel aelodau Annibynnol neu fel aelod o Blaid Wleidyddol.*
2. *A wnaeth unrhyw staff Comisiwn y Cynulliad geisio caniatâd i sefyll fel ymgeisydd yn etholiadau diwethaf awdurdodau/cynghorau lleol neu Gynghorau Sir? Os felly, sawl un gafodd eu gwrthod ac am ba resymau; sawl un y rhoddwyd caniatâd iddynt; a wnewch chi nodi ym mhob achos a oeddent yn bwriadu sefyll fel ymgeisydd Annibynnol neu aelod o Blaid Wleidyddol.*
3. *A gafodd unrhyw staff Comisiwn y Cynulliad eu hethol i awdurdod lleol/Cyngor yn nhymor blaenorol yr awdurdod/cyngor lleol. Os felly, a oeddent yn aelodau Annibynnol neu'n aelod o Blaid Wleidyddol.*

Mae Cod Ymddygiad Staff Comisiwn y Cynulliad yn nodi'n glir y rheolau yn ymwneud â chyfranogi mewn gweithgareddau gwleidyddol, yn benodol adran 4. Fodd bynnag, nid oes gennym unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi mewn perthynas â'ch cais.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Assembly-Accesstoinformation@Cynulliad.Cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno’n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae’r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF